# Amcangyfrif ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26

**Efa Gruffudd Jones**

**Comisiynydd y Gymraeg**

**23 Hydref 2024**

Manylion Cyswllt

ffôn: 0345 6033 221
e-bost: post@comisiynyddygymraeg.cymru
gwefan: comisiynyddygymraeg.cymru

# 1 Cefndir a chyd-destun

1.1 Paratowyd yr amcangyfrif hwn o incwm a gwariant Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2025-26 yn unol ag adran 17 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Ein pwrpas a'r hyn rydym yn ei wneud

1.2 Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yw gwaith Comisiynydd y Gymraeg. Drwy wneud hynny rydym yn cyfrannu at wireddu ein gweledigaeth o **Gymru lle gall pobl fyw eu bywydau yn Gymraeg.**

1.3 Wrth fynd ati i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi bod rhaid i ni ganolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau Cymraeg a'r defnydd ohonynt, a chyfleoedd eraill i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac yn sefydlu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

1.4 Mae'r Mesur yn ein galluogi i wneud sawl peth i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys:

- gosod a gorfodi dyletswyddau drwy safonau'r Gymraeg
- annog a rhannu arferion llwyddiannus
- llunio a chyhoeddi adroddiadau a gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud
- gwneud gweithgareddau addysgol neu gomisiynu eraill i'w gwneud
- cyflwyno sylwadau neu roi cyngor i unrhyw un, gan gynnwys gwneud argymhellion ysgrifenedig i Weinidogion Cymru
- cynnal ymholiad statudol mewn maes penodol.

1.5 Mae'r cyfnod sydd o'n blaen yn un allweddol i'r Gymraeg wrth i Fil Addysg a'r Gymraeg fynd drwy'r Senedd, wrth ystyried argymhellion adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, ac wrth i fwy o gyrff ddod o dan safonau'r Gymraeg.

1.6 Yn ystod 2024-25 rydym wedi datblygu dull newydd o gyd-reoleiddio - dull cydweithredol sy'n golygu ymwneud a gweithio'n agosach gyda'r bobl a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw gan annog diwylliant agored a thryloyw.

1.7 Yn ogystal, bydd 2025-26 yn nodi blwyddyn gyntaf Cynllun Strategol pum-mlynedd newydd y byddaf yn ymgysylltu'n gyhoeddus yn ei gylch yn ystod hydref 2024. Byddaf hefyd yn llunio'r trydydd adroddiad statudol ar sefyllfa'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn nesaf.

1.8 Yn gefnlen i hyn oll mae cyfnod o gyfyngiadau ariannol i'r sector cyhoeddus a nifer o sectorau eraill yng Nghymru. Mae atgoffa sefydliadau o bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg, a'r rhesymau dros hynny, felly'n fwy pwysig nag erioed. Mae gosod blaenoriaethau yn hanfodol er mwyn canolbwyntio egnïon, ac rydym yn cydnabod bod angen inni fod yn hyblyg, yn ddychmygus ac yn fentrus er mwyn gwneud yn fawr o'n hadnoddau wrth gyflawni ein gwaith.

1.9 Mae'r Amcangyfrif a gyflwynir ar gyfer 2025-26 felly wedi'i lunio yng nghyd-destun ein cynlluniau gweithredu a'r sefyllfa ariannol ehangach, a hefyd yr arbedion sylweddol sydd wedi'u cyflawni yn ystod 2024-25 i'n galluogi i weithredu o fewn cyllideb sy'n aros yn sefydlog. Byddai cyllideb lai na gwastad yn anorfod yn arwain at orfod gwneud arbedion anodd fyddai'n effeithio ar ein rhaglen waith sylfaenol.

1.10 Fe wnaethom dderbyn gostyngiad o 5% yn ein cyllideb ar gyfer 2024-25; sefyllfa y gwnaethom ymdopi â hi drwy rewi dwy swydd a lleihau gwariant. Roeddem eisoes wedi cymryd camau sylweddol i leihau ystâd swyddfeydd y sefydliad yn ystod 2023-24 ac rydym wedi cymryd camau pellach eleni drwy gynnal proses ailstrwythuro trwyadl. Effaith hynny ydi lleihau nifer staff y sefydliad ymhellach o bedwar drwy ymadawiadau ac ymddiswyddiadau gwirfoddol. Rydym wedi addasu'r ffordd rydym yn gweithio mewn rhai mannau o ganlyniad, a thrwy flaenoriaethu gweithgareddau craidd wedi gwneud arbedion pellach i gostau rhedeg y sefydliad.

1.11 Fodd bynnag byddwch yn nodi bod y cais ar gyfer y gyllideb refeniw yn cynnwys cynnydd i'r gyllideb waelodol o £27,500 ar gyfer cyfraniad pensiwn y cyflogwr o 01/04/2024 a £32,100 ar gyfer cynnydd cyflogau, sy'n ddisgwyliedig o 2024-25 ymlaen.

1.12 Crynhoir y cais cyllidebol ar gyfer y flwyddyn 2025-2026 fel a ganlyn:

- Refeniw £3,249,000
- Cyfalaf £50,000
- Heb fod yn arian parod (dibrisiant) £112,000

1.13 Caiff yr Amcangyfrif ei gyflwyno cyn bod Canghellor y Trysorlys yn cyflwyno datganiad cyllideb Llywodraeth y DU i Dŷ'r Cyffredin. Mae dyfalu y gallai YG y cyflogwr ddod yn daladwy ar gyfraniadau pensiwn y cyflogwr. Byddai hyn yn cynyddu costau cyflogaeth rhyw £75,000, nad yw wedi'i gynnwys yn yr Amcangyfrif hwn. Byddai cynnydd o'r maint yma, heb gyllid ychwanegol, yn golygu byddai rhaid gwneud arbedion, er mwyn cadw o fewn y gyllideb.

1.14 Yn ogystal, tra bo Amcangyfrif 2025-26 wedi'i gynllunio ar y sail na fydd cynnydd pellach i'r gyllideb, mae'r rhagolwg ar gyfer 2026-27 yn dangos y bydd pwysau cyllidebol eto yn ystod y flwyddyn honno. Wrth i gostau cyflogaeth gynyddu oherwydd codiadau costau byw, a heb gynnydd i'r gyllideb, bydd gwneud arbedion pellach yn anorfod.

1.15 Rydym wedi gallu gwneud arbedion hyd yma heb effeithio yn andwyol ar ein gwasanaethau craidd. Byddai unrhyw arbedion pellach yn gwneud cyflawni ein holl gyfrifoldebau yn gynyddol anoddach ac yn arwain at orfod peidio â pharhau â rhai gweithgareddau allweddol. Gallai'r math o benderfyniadau byddai angen eu gwneud o ganlyniad i orfod canfod arbedion drwy golli swyddi pellach gynnwys roi'r gorau i waith datblygol gyda busnesau ac elusennau. Cyflwynwn y gyllideb hon felly mewn ysbryd o resymoldeb yn yr hinsawdd bresennol.

# 2 Crynodeb o’r Cynlluniau Ariannol

2.1 Er mwyn rhoi’r cyd-destun i’r cynlluniau ariannol paratowyd rhagolwg gwariant lefel uchel. Mae hwn wedi ei grynhoi islaw gyda sylwadau perthnasol wedi’u nodi.

| | **Alldro 2023-24** | | **Rhagolwg 2024-25** | | **Amcangyfrif 2025-26** | | **Cynllun 2026-27** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **%** | **£000** | **%** | **£000** | **%** | **£000** | % |
| Cyflogaeth | 2,632 | 78.4 | 2,687 | 82.2 | 2,642 | 81.3 | 2,750 | 82.2 |
| Costau Gweinyddu | 342 | 10.2 | 428 | 13.1 | 424 | 13.0 | 412 | 12.3 |
| Lesoedd Swyddfa | 97 | 2.9 | 52 | 1.6 | 51 | 1.6 | 50 | 1.5 |
| Rhaglenni | 286 | 8.5 | 102 | 3.1 | 132 | 4.1 | 132 | 4.0 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **3,357** | | **3,269** | | **3,249** | | **3,344** | |
| **Buddsoddiad ar Gyfalaf** | **94** | | **50** | | **50** | | **50** | |
| **Dibrisiant** | **113** | | **100** | | **112** | | **114** | |
| **Cyllido Llywodraeth:** | | | | | | | | |
| Refeniw (cyn IFRS16) | 3,357 | | 3,269 | | 3,249 | | 3,249 | |
| Cyfalaf | 94 | | 50 | | 50 | | 50 | |
| Dibrisiant | 169 | | 121 | | 112 | | 114 | |
| **(Gorwariant)/Tanwariant** | | | | | | | | |
| Refeniw | - | | - | | - | | (95) | |
| Cyfalaf | - | | - | | - | | - | |
| Dibrisiant | 56 | | 21 | | - | | - | |

2.2 Mae’r tabl uchod yn dangos bod rhagolwg 2024-25 yn rheoli’r gwariant o fewn y gyllideb dybiannol caiff ei dyrannu gan Lywodraeth Cymru. Mae’r rhagolwg yn cynnwys ysgwyddo costau’r taliadau diswyddo yn sgil yr ail-strwythuro a’r cynnydd i’r dybiaeth ar gyfer y codiad cyflog yn y flwyddyn, nad oedd wedi’i gyllidebu. Mae’r rhagolwg yn tybio derbyn cyllid ychwanegol o £60,000 fel noder yn 1.11 uchod ar gyfer costau cyflogaeth.

2.3 Mae’r Amcangyfrif yn dangos bod y camau sydd eisoes wedi eu cyflawni eleni drwy leihau nifer staff y sefydliad a chamau blaenorol i leihau ystâd y sefydliad yn ein galluogi i fyw o fewn cyllideb sefydlog ar gyfer 2025-26.

2.4 Fodd bynnag, mae’r cynllun hefyd yn dangos y bydd yn debygol y bydd angen cynnydd i gyllideb 2026-27 yn sgil pwysau cyllidebol pellach wrth i gostau cyflogaeth gynyddu.

# 3 Dadansoddiad a phrif negeseuon

3.1 Heb gynnydd i'r gyllideb waelodol (ac eithrio'r cyfraniad pensiwn a'r codiad cyflog nad oedd wedi'i gyllidebu) mae wedi bod yn anorfod ariannu'r setliadau cyflog drwy wneud arbedion i feysydd arall o'r gyllideb. Traweffaith hyn yw bod y canran y gyllideb refeniw sy'n cael ei defnyddio ar gyflogaeth wedi cynyddu dros y deng mlynedd diwethaf, gyda'r cynnydd yn arwain at lai o gyllid ar gael ar gyfer costau rhedeg y sefydliad a'r gwariant ar raglenni. Noder fodd bynnag bod y nifer staff cyfwerth â llawn amser wedi gostwng ar yr un pryd (gweler y tabl isod):

| | **Alldro 2016-17 £000** | **%** | **Alldro 2021-22 £000** | **%** | **Amcangyfrif 2025-26 £000** | **%** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogaeth | 2,112 | 70.1 | 2,397 | 75.6 | 2,642 | 81.3 |
| ***Nifer staff cywerth llawn amser*** | ***45.6*** | | ***43.8*** | | ***38.2*** | |
| Costau Swyddfeydd a Gweinyddu | 678 | 22.5 | 693 | 21.8 | 475 | 14.6 |
| Rhaglenni | 221 | 7.3 | 81 | 2.6 | 132 | 4.1 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **3,011** | | **3,171** | | **3,249** | |
| **Cyllido Refeniw Llywodraeth** | **3,051** | | **3,207** | | **3,249** | |

3.2 Mae camau sylweddol wedi eu cymryd eisoes i leihau nifer y staff cyflogedig i 38.2 (cyfwerth â llawn amser). Fe arweiniodd hynny hefyd yn anorfod at ailstrwythuro mwy cyffredinol er mwyn galluogi ailddosbarthu'r gwaith ar draws y sefydliad ac i sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu cyfeirio at y meysydd pwysicaf yn strategol. Effaith hynny yw bod mwy o bwysau ar lai o swyddogion i gyflawni amcanion strategol y sefydliad.

3.3 Mae elfen o hynny wedi golygu bod rhai swyddogion wedi gorfod amsugno gwaith ychwanegol, peidio â pharhau gyda rhai gweithgareddau ac mewn elfennau eraill mae wedi golygu gorfod addasu'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn galluogi parhau i gyflawni'r gwaith. Un enghraifft yw newid i fonitro cydymffurfiaeth sefydliadau ar sail proffil risg sy'n golygu bod ein gweithgareddau monitro yn gynyddol amrywiol ar draws y sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio.

3.4 Mae risg gwirioneddol yn codi, pe byddai angen torri nifer y staff cyflogedig ymhellach yn sgil toriad i'r gyllideb, na fyddai modd parhau gyda'r amcanion strategol sydd wedi eu gosod. Byddai hyn yn cael effaith andwyol ar y Cynllun Strategol newydd rydym ar hyn o bryd yn ei gynllunio ar gyfer 2025-30. Yn syml, byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd i beidio â gwneud rhai gweithgareddau allweddol bwysig, gan na fyddai modd i swyddogion amsugno unrhyw waith sylweddol ychwanegol i'r hyn sydd eisoes wedi digwydd.

3.5 Rydym yn croesawu'n fawr y gwaith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud er mwyn dod â mwy o gyrff dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg. Bydd y gwaith yma'n arwain at fwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt derbyn gwasanaethau yn y blynyddoedd i ddod. Ond yn anorfod mae hynny'n arwain at lwyth gwaith cynyddol arnom, sy'n ffactor i'w ystyried wrth gynllunio i'r dyfodol.

## Cyflogaeth

3.6 Er mwyn ceisio cynllunio'n gynnar ac yn ddarbodus ar gyfer 2025-26, gwnaed rhai penderfyniadau anodd dros y 12 mis diwethaf:

- Penderfynwyd peidio â llenwi dwy swydd daeth yn wag drwy ymddiswyddiadau yn chwarter olaf 2023-24, gyda'r lleihad yn y costau yn cyfrannu at yr arbedion oedd angen eu cyflawni yn sgil toriad o 5% (£168,000) i gyllideb 2024-25.

- Cynhaliwyd proses o ail-strwythuro a chynnig cynlluniau ymadael gwirfoddol a diswyddo gwirfoddol i staff yn ystod 2024-25. Mae hyn wedi ein galluogi i leihau nifer y swyddogion cywerth â llawn amser o 42.2 yn 2023-24 i 38.2 ar gyfer 2025-26. Ariannwyd y cynlluniau yn llwyr o fewn cyllideb 2024-25.

3.7 Dros y cyfnod diweddar o chwyddiant uchel, mae'r pwysau ar gyflogau wedi cynyddu'n sylweddol ac mewn ymateb i hyn, mae setliadau cyflog Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynyddu.

3.8 Mae'r tybiaethau canlynol wedi'u cynnwys o ran cynnydd i gostau cyflogau:

- 2024-25 5.0%
- 2025-26 3.0%
- 2026-27 3.0%

3.9 Ar sail hyn a chodiadau cyflog blaenorol, bydd y cynnydd cronnus i gostau cyflogaeth ers 2022-23 yn £416,000 erbyn 2025-26 gan godi i £496,000 erbyn 2026-27. O ganlyniad, bydd angen cynnydd i gyllideb 2026-27 er mwyn ariannu unrhyw godiad cyflog pellach, neu bydd hi'n anorfod gwneud penderfyniadau anodd pellach.

## Gweinyddol: costau rhedeg y sefydliad

3.10 Roedd budd untro yn 2023-24 yn sgil rhyddhau darpariaethau dadfeiliadau wedi terfynu ac ildio lesoedd swyddfa. Mae'r Amcangyfrif yn tybio bydd costau swyddfeydd a gweinyddu ar gyfer 2025-26 rhyw **£156,000 yn llai** na gwir gostau 2022-23 (y flwyddyn olaf cyn lleihau ystâd y swyddfeydd).

3.11 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r costau swyddfeydd a gweinyddu dros y cyfnod cynllunio:

| | Alldro 2022-23 £000 | Alldro 2023-24 £000 | Rhagolwg 2024-25 £000 | Amcangyfrif 2025-26 £000 | Cynllun 2026-27 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Cynnal Swyddfeydd | 120 | 107 | 89 | 89 | 89 |
| Dadfeiliadau | 7 | (109) | 0 | 0 | 0 |
| Costau Gweinyddu | 383 | 344 | 339 | 335 | 323 |
| **Cyfanswm Gweinyddu** | **510** | **342** | **428** | **424** | **412** |
| Lesoedd Swyddfeydd * | 121 | 97 | 52 | 51 | 50 |
| **Cyfanswm** | **631** | **439** | **480** | **475** | **462** |

3.12 (*) Noder, ers 01/04/2022 bod IFRS16 Lesoedd yn newid triniaeth rhent lesoedd swyddfeydd, felly mae'r dibrisiant a llog cysylltiedig wedi'u cynnwys er cymhariaeth.

3.13 Mae'r paragraffau isod yn nodi'r prif faterion perthnasol ar gyfer costau rhedeg y sefydliad.

### Swyddfeydd £140,000

3.14 Cafodd y prosiect i leihau ystâd swyddfeydd y sefydliad ei gwblhau ddiwedd mis Mawrth 2024. Gyda chau swyddfeydd Caerfyrddin a Rhuthun a swyddfa Caerdydd wedi adleoli i ofod sylweddol llai, mae costau rhedeg y swyddfeydd wedi arwain ar arbedion sylweddol. O ganlyniad, nid oes sgôp i ganfod arbedion pellach yma.

3.15 Crynhoir isod costau amcangyfrif 2025-26 yn erbyn y rhagolwg o gostau gwaelodol rhedeg y swyddfeydd yn 2022-23 adeg paratoi'r achos busnes (y flwyddyn olaf lle bu'r swyddfeydd ar agor am y flwyddyn gyfan) a chostau tybiannol y dyfodol adeg yr achos busnes.

| | Caerdydd £000 | Caernarfon £000 | Caerfyrddin £000 | Rhuthun £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcangyfrif 2025-26** | **53** | **85** | **1** | **1** | **140** |
| Costau gwaelodol (Rhagolwg 22-23) | 136 | 81 | 31 | 6 | 254 |
| Achos Busnes | 74 | 81 | 3 | 2 | 160 |
| **Arbediad v. costau gwaelodol** | **83** | **(4)** | **30** | **5** | **114** |

3.16 Mae costau rhedeg y swyddfeydd yn eithaf cyson â'r hyn tybiwyd adeg paratoi'r achos busnes, ac eithrio costau swyddfa Caerdydd. Mae symud i swyddfa CP2 wedi galluogi'r sefydliad i wneud arbedion ychwanegol i'r rhai tybiwyd yn yr achos busnes.

### Costau Gweinyddu £335,000

3.17 Mae camau wedi'u cymryd dros nifer o flynyddoedd i chwilio am arbedion er mwyn lleihau'r gwariant. Rydym yn chwilio am arbedion pellach bob blwyddyn ond prin yw'r cyfleoedd bellach. Gellir dadansoddi'r prif elfennau gwariant fel a ganlyn:

3.18 TG a Telathrebu (£132,000): Mae £99,000 o'r gwariant yn ymrwymiadau cytundebol megis tenantiaeth a thrwyddedau Microsoft, trwyddedau meddalwedd, gwasanaethau diogelwch a chytundebau gwasanaethau cefnogi. Cedwir £15,000 o'r gwariant nad yn ymrwymiad cytundebol ar gyfer datblygiadau TG yn y flwyddyn.

3.19 Caiff £30,000 o'r cyllid ei wario ar elfennau seibr ddiogelwch, gyda £13,000 yn ymrwymiadau cytundebol a £17,000 ar gyfer achrediadau diogelwch seibr er mwyn cydymffurfio a gofynion seibr ddiogelwch Llywodraeth Cymru.

3.20 Cyfreithiol a Phroffesiynol (£114,000): Cwtogwyd rhywfaint ar wariant cyfreithiol ac archwilio mewnol, gydag arbedion mwy sylweddol ar gostau cyfieithu.

3.21 Recriwtio Hyfforddiant a Lles (£29,000): Mae'r cyllid yn gyson â blynyddoedd diweddar gyda rhyw £16,000 yn cael ei wario ar hyfforddiant a datblygu, sydd ychydig dros £400 y pen. Mae'r gweddill wedi'i neilltuo ar gyfer recriwtio, seminarau swyddogion, aelodaeth broffesiynol a sefydliadol a lles.

3.22 Teithio a chynhaliaeth (£38,000): Mae ychydig o gynnydd wedi'i gynllunio ar gyfer y costau yma er mwyn galluogi staff i gyflawni'u dyletswyddau yn effeithiol, boed yn fewnol neu gyda rhanddeiliaid.

### Rhaglenni

3.23 Mae swm tybiannol o £132,000 wedi'i gynnwys ar gyfer amcangyfrif 2025-26, gyda'r swm yn cynrychioli prin 4.1% o'r gwariant refeniw yn yr Amcangyfrif.

3.24 Noder bod £45,000 o'r swm ar gyfer rhaglenni wedi'i neilltuo ar gyfer gwariant ynghlwm a mynychu'r Eisteddfodau. Mae hyn yn gadael £87,000 ar gyfer yr holl raglenni eraill. Nid yw swm mor fach yn caniatáu gwariant ar brosiectau newydd na sylweddol.

### Cyfalaf a Dibrisiant (cyllid nad yn arian parod)

3.25 Mae cais am gyllid cyfalaf o £50,000, sy'n gyson â'r blynyddoedd diweddar. Bydd hyn ar gyfer datblygiadau a diweddariadau hanfodol i'r isadeiledd a'r gwasanaethau TG.

3.26 Ar sail gwerth yr asedau sefydlog a'r buddsoddiad cyfalaf ym mlynyddoedd 2024-25 a 2025-26, rhagwelir cost dibrisiant o £100,400 ar gyfer 2024-25 ac amcangyfrif o £112,000 ar gyfer 2025-26. Mae'r ddau swm o fewn y dybiaeth ar gyfer y gyllideb.

# 4 Casgliad

4.1 Mae'r papur hwn yn dangos y camau sylweddol sydd eisoes wedi eu cymryd i leihau costau rhedeg y sefydliad dros y blynyddoedd diwethaf yn enwedig o safbwynt y swyddfeydd a chostau staffio. Mae'r rheolaeth ariannol ddarbodus hon wedi ein galluogi i lunio Amcangyfrif ar sail cyllideb sy'n aros yn sefydlog. Yn amodol ar unrhyw newid i gyfraniadau yswiriant gwladol, yr unig gyllideb ychwanegol gofynnir amdani yw'r £60,000 disgwylir yn 2024-25 oherwydd y cynnydd i gyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 01/04/2024 a setliad tâl 2024-25 tu hwnt i'r dybiaeth cyllidebu. Rydym wedi osgoi'r angen i ofyn am gynnydd pellach na hynny ar gyfer 2025-26 drwy weithredu mewn ysbryd o resymoldeb yn yr hinsawdd bresennol a gan ragweld y bydd angen gwneud hynny ar gyfer 2026-27.

4.2 Rydym wedi cymryd pob cam posib i ganfod ffyrdd o arbed costau heb i hynny amharu'n ormodol ar y gwaith rydym yn ceisio ei gyflawni. Oherwydd y camau sydd eisoes wedi eu cymryd, a'r ffaith bod 81% o'r gyllideb bellach yn cael ei wario ar gostau staffio, byddai unrhyw doriad pellach yn anorfod yn arwain at golli rhagor o swyddi. Byddai hynny yn peri risg gwirioneddol i'n rhaglen waith sylfaenol ac yn achosi cyfnod pellach o ansefydlogrwydd ac ansicrwydd i staff sydd eisoes wedi bod drwy un broses ailstrwythuro a diswyddiadau eleni. Mae risg gwirioneddol i'n gwasanaethau craidd pe bai hynny'n digwydd, gan y byddai'n gwneud cyflawni ein holl gyfrifoldebau yn gynyddol anoddach ac yn arwain at orfod peidio â pharhau â rhai gweithgareddau allweddol, fel mae'r papur hwn yn ei amlinellu.